# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2021/22

| Cyfnod y Cynllun Ffioedd a Mynediad | **1 Awst 2021 tan 31 Gorffennaf 2022** |
|---|---|

## Adran 1 - Lefelau Ffioedd

Adran 1.1 - Lefelau ffioedd neu bennu lefel ffi ym mhob lleoliad

| Lefel ffi | Lleoliad cwrs |
|---|---|
| £9,000 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd<br>• Tystysgrif Addysg Uwch (cwrs un flwyddyn amser llawn)<br>• Gradd gyntaf mewn Iechyd/Milfeddygaeth neu gymhwyster ar sail cymwysterau blaenorol i ddechau cwrs ym mlwyddyn 2 neu 3<br>• Diploma a chymhwyster am Iechyd/Milfeddygaeth<br>• Gradd Gyntaf Estynedig (gradd 4 blynedd yn arwain at gymhwyster Meistr)<br>• TAR |
| | **Coleg Cambria**<br>• Gradd Gyntaf |

| | |
|---|---|
| £7,500 | **Coleg Cambria**<br>• Gradd Sylfaen |
| £1,800 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 3)<br>• Gradd Gyntaf Estynedig - blwyddyn mewn diwydiant (blwyddyn 4) |
| £1,350 | **Prifysgol Abertawe**<br>• Gradd Baglor Anrhydedd - blwyddyn dramor<br>• Gradd Gyntaf Estynedig - blwyddyn dramor |

Gall ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU **gynyddu** yn y blynyddoedd astudio dilynol ar sail chwyddiant, yn unol â phenderfyniad Llywodraeth Cymru.

## Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfunol

**Cyfanswm cost ffioedd dysgu ar hyd cwrs (ffioedd cyfansymiol)**
Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar ein tudalennau cyrsiau ar ein gwefan, gall myfyrwyr gyfrifo cyfanswm y ffioedd dysgu cyfan neu gyfansymiol y byddant yn eu talu drwy gydol eu gradd benodol. Dyma rai enghreifftiau nodweddiadol:

| Math nodweddiadol o radd (Israddedig amser llawn – myfyriwr o'r DU/yr UE) | Cyfrifiad | Cyfanswm ffioedd dysgu ar gyfer hyd cyfan y cwrs* |
|---|---|---|
| Gradd israddedig amser llawn 3 blynedd/TAR | 3 x £9,000 y flwyddyn | £27,000 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn dramor | 3 x £9,000 ynghyd â £1,350 ar gyfer y flwyddyn dramor | £28,350 |
| Gradd 4 blynedd gyda blwyddyn mewn diwydiant | 3 x £9,000 ynghyd â £1,800 ar gyfer y flwyddyn mewn diwydiant | £28,800 |
| Gradd 4 blynedd | 4 x £9,000 | £36,000 |
| Gradd Sylfaen | 2 x £7,500 y flwyddyn | £15,000 |

*nid yw'n cynnwys costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag astudio cyrsiau penodol (gweler isod)

Waeth beth yw lefel y ffioedd, byddwn yn...

- Ysgrifennu at yr holl fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais i ddechrau o 2021-22 i'w hysbysu am y ffioedd, y trefniadau ar gyfer talu ffioedd a'r cymorth a fydd ar gael iddynt.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth am lefelau ffioedd ar gyfer pob blwyddyn y rhaglen astudio (er mwyn cyfrifo'r ffi gyfansymiol ar gyfer y rhaglen gyfan).
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at fyfyrwyr sy'n cyflwyno cais i ddechrau ym Mhrifysgol Abertawe yn 2021-22, wedi gohirio eu lle o'r flwyddyn flaenorol, i'w hysbysu am y ffioedd.
- Byddwn hefyd yn ysgrifennu at ein myfyrwyr presennol y gallai'r newidiadau mewn ffioedd effeithio arnynt os dewisant symud i gwrs arall neu os bydd rhaid iddynt ailsefyll arholiad, er mwyn darparu'r wybodaeth briodol iddynt.
- **Ceir gwybodaeth am ffioedd a chostau cysylltiedig yma**

Yn ogystal â thaliadau Ffioedd Dysgu a chostau byw, gall **costau ychwanegol gorfodol neu ddewisol** fod yn gysylltiedig â rhai rhaglenni (neu fodiwlau), i alluogi myfyrwyr i gyfranogi'n llawn a chwblhau eu rhaglen benodol.

Bydd angen i fyfyrwyr gyllidebu ar gyfer y costau hyn ar wahân, gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffioedd dysgu cyffredinol a godir. Gall costau o'r fath gynnwys teithiau maes, costau teithio i leoliadau gwaith neu leoliadau astudio, costau labordy a chyfarpar neu wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n benodol i'r rhaglen. Bydd y Brifysgol a'i phartneriaid mewn trefniadau masnachfraint yn parhau i ymdrechu i gadw nifer a maint costau ychwanegol i'r lefelau isaf posib, ond **cyhoeddir manylion am gostau ychwanegol ar dudalennau gwe rhaglenni unigol, a chânt eu cynnwys yn yr wybodaeth am raglenni a anfonir at ymgeiswyr wrth roi cynnig iddynt.** Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan yma.

## Adran 2 - Gweithio mewn Partneriaeth â Myfyrwyr

Mae swyddogion Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o Weithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad, er mwyn cyfeirio a llywio proses llunio pob cynllun Ffioedd a Mynediad. Wrth lunio'r cynllun hwn, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Llywydd a'r Swyddog Addysg i drafod gwerthusiad Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19, gan gynnwys datblygiadau ar gyfer cynllun 2021-22, a buont yn bresennol mewn cyfarfodydd cynlluniedig i drafod y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn adolygu drafft cyntaf y cynllun a'r drafftiau dilynol ar ôl i ni dderbyn adborth gan CCAUC. Bydd Swyddogion Undeb y Myfyrwyr hefyd yn chwarae rôl wrth gefnogi'r cynllun pan gaiff ei gyflwyno i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth/Cyngor i'w gymeradwyo. Yn ogystal, mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod o'r Cyngor a bydd yn cefnogi'r cynllun ar gyfer cymeradwyaeth derfynol.

Mae holl swyddogion amser llawn Undeb y Myfyrwyr, a'u Tîm Llais y Myfyrwyr, yn aelodau allweddol o'r **Pwyllgor Partneriaeth ac Ymgysylltu â Myfyrwyr**, un o bwyllgorau allweddol y Brifysgol lle caiff strategaethau a phrosiectau eu trafod a'u cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hwn yn adrodd i Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol ac mae ganddo drosolwg hefyd o adolygiad blynyddol Siarter y Myfyrwyr, yn unol ag argymhellion CCAUC ac ychwanegiadau a newidiadau sy'n deillio o brofiad ehangach y myfyrwyr.

Mae myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth drwy lawer o sianelau'r Brifysgol, gan gynnwys:

- Cynrychiolaeth myfyrwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol a fforymau Staff a Myfyrwyr a Phwyllgorau Dysgu ac Addysgu Colegau
- Gwefan MyUni a chylchlythyr wythnosol i fyfyrwyr ynghyd ag e-byst am bynciau mwy penodol sy'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at fyfyrwyr ac amrywiaeth o gyfryngau cymdeithasol.
- Cymuned o Fyfyrwyr Adolygu sy'n cefnogi amcanion adolygu a gwella ansawdd ac sy'n cyfrannu at adolygiadau blynyddol rhaglenni.

Mae ein Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr yn canolbwyntio ar greu diwylliant cynhwysol o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr, gan sicrhau bod ein Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymuned o fyfyrwyr a bod myfyrwyr yn cael eu cynrychioli yn ein holl strwythurau. Mae'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgysylltu fel partneriaid, drwy amrywiaeth helaeth o blatfformau sy'n galluogi dewis ac yn cefnogi hygyrchedd, megis Paneli Barn Myfyrwyr a digwyddiadau Ymborth i'r Meddwl . Rydym hefyd yn ymgysylltu â'n myfyrwyr mewn sefydliadau partner drwy'r strategaeth hon. Mae llais y myfyrwyr ac adborth myfyrwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn arolygon Llais y Dysgwyr a gynhelir yn ein sefydliadau partner sydd wedyn yn darparu adborth i'r tiwtor cyswllt ar gyfer pob coleg.

Mae'r Brifysgol yn cynnal menter 'Gyda'n Gilydd Fe Wnaethom Newid' sydd â'r nod o gau'r cylch adborth. Rydym yn rhannu delweddau a negeseuon sy'n manylu ar gamau gweithredu a ddeilliodd o adborth myfyrwyr ar lefel rhaglenni, Colegau a'r Brifysgol gyfan. Gall myfyrwyr bostio a chyflwyno sylwadau'n ddienw ar fyrddau Colegau a'r Brifysgol, drwy Unitu, platfform llais y myfyrwyr sy'n rhoi cyfle i staff ymateb ac yn hwyluso trafodaethau ystyrlon. Mae'r platfform yn rhoi cyfle i ni ddeall blaenoriaethau myfyrwyr ac mae'r sgwrs yn datblygu'n gyson. Gall staff ymateb i adborth myfyrwyr ar fodiwlau drwy borth ymgysylltu Evametrics sy'n galluogi myfyrwyr i gwblhau arolygon yn eu dosbarthiadau yn ystod modiwlau ac ar eu diwedd. Mae'r porth yn cynnig adnodd syml i staff roi sylwadau i fyfyrwyr yn seiliedig ar eu hadborth, nodi camau gweithredu a chreu dialog rhwng staff a myfyrwyr. Mae'n gyfrwng ar gyfer creu cynnwys modiwlau ar y cyd ac yn helpu i gau'r cylch adborth.

Cynhelir fforymau staff a myfyrwyr sy'n cynnwys Cynrychiolwyr Myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a Staff Colegau er mwyn derbyn adborth myfyrwyr a darparu diweddariadau i'r myfyrwyr. Bydd Swyddog Materion Cymraeg yn cynrychioli ac yn cefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, sy'n hanu o Gymru a/neu sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Sefydlwyd fforwm penodol ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n aelodau o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a derbynnir eu hadborth gan Fwrdd Strategaeth Iaith Gymraeg y Brifysgol a chan Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd.

Mae'r system 'Cynrychiolwyr Myfyrwyr' yn cynnwys dros 300 o gynrychiolwyr Colegau a phynciau sy'n aelodau o bwyllgorau Dysgu ac Addysgu, Byrddau Astudio a Fforwm Staff a Myfyrwyr Colegau. Mae adborth cynrychiolwyr myfyrwyr yn eitem bwysig ar agendâu Byrddau Astudio a Fforymau Staff a Myfyrwyr Colegau. Mae'r Cynrychiolwyr Coleg hefyd yn rhan o bwyllgor partneriaeth y 'Parth Addysg' sy'n cael ei reoli gan Undeb y Myfyrwyr a'i gadeirio gan Swyddog Addysg Undeb y Myfyrwyr.

Yn ogystal, mae gan bob Coleg Arweinwyr Ymgysylltu â Myfyrwyr, o blith y staff academaidd a gweinyddol, sy'n meithrin perthnasoedd gweithio agos â'r myfyrwyr sy'n gynrychiolwyr y coleg a'u pwnc. Mae'r arweinwyr a'r cynrychiolwyr myfyrwyr yn cefnogi ei gilydd wrth fynd i'r afael â materion a datblygu mentrau ar y cyd ar lefel Coleg, megis cynlluniau mentora cyfoedion a chynlluniau bydi.

Cynrychiolir myfyrwyr yn y prosesau adolygu ansawdd drwy aelodaeth o'r paneli sy'n cynnal Adolygiadau Cyfnodol ac Adolygiadau Gwella Profiad y Myfyrwyr (sydd fel arfer yn cael eu cynnal o ganlyniad i adborth myfyrwyr). Mae myfyrwyr yn cael eu gwahodd i'r paneli hyn hefyd er mwyn rhoi adborth ar eu profiad academaidd. Mae adborth myfyrwyr, drwy eu hymatebion i arolygon, yn rhan bwysig o'r prosesau adolygu ansawdd ac mae'r gyfradd ymateb uchel yn Abertawe yn ein galluogi i gasglu data cadarn iawn ynghylch boddhad myfyrwyr â'u rhaglenni. Mae adborth myfyrwyr ar eu modiwlau, sy'n cael ei gasglu ddwywaith y flwyddyn, hefyd yn cyfrannu at adolygiadau datblygiad proffesiynol staff.

Amlygwyd llwyddiant ein partneriaeth â'n myfyrwyr pan gyflwynwyd ein platfform dysgu digidol newydd, Canvas. Ymgynghorwyd â myfyrwyr a swyddogion amser llawn drwy gydol y broses gaffael a buont yn cyfrannu at gam cyntaf profi'r platfform, gan amlygu newidiadau a gwelliannau er lles cymuned ehangach y myfyrwyr. Mae'r Llywydd a'r Swyddog Addysg yn parhau'n aelodau o Fwrdd Prosiect Canvas sy'n gyfle iddynt roi adborth yn rheolaidd. Maent wedi cadarnhau eu barn bod y broses hon wedi chwarae rhan allweddol wrth wella ansawdd dysgu ac addysgu.

Gwelwyd enghraifft arall o'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr yn Ymgyrch Mis Hanes Pobl Dduon pan weithiodd Undeb y Myfyrwyr gyda'r Brifysgol i gynnal nifer o sgyrsiau panel a gweminarau a oedd yn cynnwys staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr o wahanol golegau. Hefyd, bu Undeb y Myfyrwyr a Thîm Menter y Brifysgol yn cydweithio fel rhan o'r ymgyrch i greu cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau drwy weithdai cyflwyno.

Mae Pwyllgor Ymgynghorol Myfyrwyr BAME yn brosiect a sefydlwyd ar y cyd gan Undeb y Myfrwyr a'r Brifysgol i sicrhau bod lleisiau myfyrwyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu clywed a'u cynrychioli ym mhob rhan o fywyd y Brifysgol. Mae pob myfyriwr ar y pwyllgor hwn yn mentora aelod o'r Uwch-dîm Rheoli er mwyn addysgu'r Uwch-dîm Rheoli ymhellach am y materion sy'n effeithio ar y myfyrwyr hyn.

Unwaith eto, mae Undeb y Myfyrwyr wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol (BywydCampws) i greu adnoddau megis canllawiau iechyd meddwl ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, yn ogystal â gweithio gyda'r Gwasanaeth Lles i greu modiwl 'Parch yn Abertawe' ar Canvas i addysgu myfyrwyr ynghylch cydsyniad rhywiol.

## Adran 3 - Grwpiau a Dangynrychiolir

Ar gyfer 2021-22, mae'r Brifysgol wedi nodi'r grwpiau canlynol a dangynrychiolir a gaiff eu cefnogi'n benodol gan y cynllun hwn.

Grwpiau a dangynrychiolir **a nodwyd gan CCAUC:**

- Myfyrwyr o bob oedran **o'r ddau gwintel isaf** ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (**WIMD40).**

- Myfyrwyr o bob oedran **o'r cwintel isaf** ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (**WIMD20).**
- Myfyrwyr o bob oedran sy'n astudio'n **rhan-amser.**
- Myfyrwyr o bob oedran sy'n astudio drwy **gyfrwng y Gymraeg.**
- Pobl o bob oedran o **ardaloedd cyfranogiad isel mewn addysg uwch y DU** (POLAR4).

Yn ogystal, mae **Prifysgol Abertawe** wedi nodi'r grwpiau canlynol a dangynrychiolir:

- **Myfyrwyr â phrofiad o ofal**
- **Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u rhieni**
- **Myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu** (perthynas neu ffrind, ac eithrio plant, oni bai fod y plentyn yn anabl neu â chyflwr meddygol tymor hir)
- **Myfyrwyr aeddfed dros 21 oed wrth ddechrau astudio**
- **Myfyrwyr anabl**
- **Grwpiau lleiafrifoedd ethnig y DU**
- **Ceiswyr Lloches**
- **Myfyrwyr o aelwydydd incwm isel**

Dyma'r grwpiau targed ar gyfer **cyfraniad y sefydliad at y rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach:**

- **pobl ifanc dros 16 oed o'r ddau gwintel isaf** ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- **oedolion heb gymwysterau lefel 4 o'r ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru**, i roi cyfle iddynt symud ymlaen i ddarpariaeth lefel 4, ac
- **ymgeiswyr â phrofiad o ofal a gofalwyr** ym mhob grŵp oedran ledled Cymru.

## Adran 4 - Amcanion sy'n berthnasol i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch

**Adran 4.1 - Amcanion Cyfle Cyfartal:**

- **CC 1 - Denu:** Ysbrydoli a recriwtio rhagor o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i astudio ym Mhrifysgol Abertawe.
- **CC 2:** Sicrhau bod myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir yn derbyn **gwybodaeth effeithiol** (gan gynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol) cyn ac ar ôl iddynt benderfynu astudio yn y Brifysgol.
- **CC 3 - Dilyniant a Chadw:** Darparu cymorth academaidd, lles ac ariannol cynhwysol i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, gan eu cefnogi i symud ymlaen a chwblhau eu hastudiaethau.
- **CC 4 - Canlyniadau:** Cefnogi rhagor o fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn addysg uwch sy'n arwain at gyflogaeth neu astudiaethau pellach.

**Adran 4.2 – Amcanion Hyrwyddo Addysg Uwch:**

- **HAU 1 - Partneriaethau Strategol Rhanbarthol:** Sefydlu partneriaethau yng Nghymru sy'n cyflawni cenhadaeth addysg uwch y sefydliad, yn ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr ac yn hybu ein dyheadau o ran Cenhadaeth Ddinesig.
- **HAU 2 - Profiad y Myfyrwyr:** Darparu gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sy'n gwella profiad y myfyrwyr, gan gynnwys gwelliannau i ansawdd yr addysgu.
- **HAU 3 - Cyflogadwyedd:** Darparu gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr, mewn partneriaeth â chyflogwyr, sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion yng Nghymru.
- **HAU 4 - Rhyngwladoli:** Darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo addysg uwch Cymru yn rhyngwladol, gan gynyddu cyfraddau recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a phartneriaethau rhyngwladol.
- **HAU 5 - Cynyddu ymwybyddiaeth** o werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr yn gyffredinol.